**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd**
**Dydd Llun 26 Gorffennaf, 10.00 – 12.00**
**Telegynhadledd**

| | |
|---|---|
| <u>**Yn Bresennol**</u> | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Wendy Gunney | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Michael Evans | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu |
| Gareth Newell | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| Jo Salway | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) |
| Len Richards | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Siân Sanders | Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu |
| Anne Wei | Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Clive Bailey | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Suzanne Wood (Eitem 3) | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Rebecca Stewart (Eitem 3) | Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Lauren Idowu (Eitem 3) | Prif Arbenigwr Hybu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Steve Morris (Eitem 3) | Rheolwr Chwaraeon, Hamdden a Datblygu, CC |
| Laura Williams (Eitem 3) | Cyfarwyddwr Chwaraeon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Ben O'Connell (Eitem 3) | Cyfarwyddwr Chwaraeon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |

| | |
|---|---|
| Tom Porter (Eitem 3) | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Natalie Dix (item 4) | Swyddog Gwella Addysg y Blynyddoedd Cynnar, CC |
| John Paxton (Eitem 5) | Rheolwr Strategaeth a Datblygu Caffael, CC |
| Sarah Hopkins (Eitem 5) | Cyfarwyddwr Cynnal Cymru |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. | |
| 2 | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>Cymeradwywyd cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021 a 7 Gorffennaf 2021. | |
| 3. | **Bwrw ymlaen â’n hymagwedd byw'n iach yng Nghaerdydd**<br><br>***3a. Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon***<br><br>Mae cynrychiolwyr Cyngor Caerdydd, BIP Caerdydd a’r Fro a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon Caerdydd 2022-2027: Symud Mwy Caerdydd.<br><br>Datblygwyd y strategaeth yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yng Nghynllun Llesiant BGC Caerdydd ac mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru. Nodwyd dolenni i agenda Heneiddio'n Dda y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd.<br><br>Amlygodd y Bwrdd gyfleoedd i ymgysylltu â phobl iau a'r sector cymunedol, gan gofnodi eu llais a'u cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau cyfathrebu.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Strategaeth i'w dwyn yn ôl i’r BGC ym mis Tachwedd i'w gytuno.<br><br>***3b. 7.2 Symud Mwy Bwyta'n Iach***<br><br>Rhoddwyd trosolwg i'r BGC o gynnydd, cyflawniadau allweddol a'r camau nesaf ar gyfer 2021/22. Cyfeiriwyd at SMBI fel arfer gorau gan Lywodraeth Cymru.<br><br>**CYTUNWYD:** Blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 yw Gweithle Iach, Hysbysebu a Marchnata Iach a Lleoliadau Addysgol. Cynrychiolydd o bob partner BGC i gefnogi datblygu blaenoriaeth y Gweithle Iach.<br><br>Cadarnhawyd bod cyllid bellach yn ei le i gefnogi ymyriadau peilot i blant a nodwyd fel rhai dros bwysau.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Cynrychiolwyr o bob partner BGC i'w nodi er mwyn cefnogi datblygiad blaenoriaeth y Gweithle Iach.<br>• Diweddariad SMBI i ddod i'r BGC bob 6 mis<br>• Sheila Hendrickson-Brown i gysylltu ynglŷn â gweithgareddau ymgysylltu | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Pawb/Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br>Sheila Hendrickson-Brown |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • BIP Caerdydd a'r Fro a'r Cyngor i eirioli dros fynediad cynnar at ddata ar ganran y plant 4/5 oed sy'n iach eu pwysau.<br><br>***<u>3c. Siarter Teithio Iach i Staff</u>***<br><br>Rhoddwyd diweddariad i'r BGC ar gynnydd y Siarter Teithio Iach i Staff yr ymrwymodd aelodau BGC Caerdydd iddi ym mis Ebrill 2019. Bydd sgoriau sefydliadau unigol yn cael eu rhannu ar wefan Teithio Iach Cymru er mwyn tryloywder ac fel ffordd i sefydliadau ddangos y camau cadarnhaol y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â llygredd aer, iechyd a'r argyfwng hinsawdd.<br><br>Amlygwyd bod set fwy uchelgeisiol o ymrwymiadau 'Lefel 2' yn cael eu datblygu.<br><br>Lansiwyd siarter fusnes yn yr wythnosau cyn pandemig COVID-19 yn y DU. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Croeso Caerdydd i'w ail-hyrwyddo.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Unrhyw sefydliad sy'n dymuno trafod ymrwymiadau 'Lefel 2' i gysylltu â Dr Tom Porter.<br>• Diweddariad i'w ddwyn yn ôl i'r BGC ym mis Tachwedd | Fiona Kinghorn<br><br><br><br>Pawb<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| **4.** | **Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar**<br><br>Yn ddiweddar, mae'r BGC wedi cymeradwyo cyflwyno cais Caerdydd fel partner Braenaru ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch alinio'r dull hwn gyda'r Fro ar sail ôl troed y bwrdd iechyd.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Cadeirydd BGC i ysgrifennu yn cadarnhau cymeradwyaeth y BGC i Gaerdydd fraenaru<br>• BGC i'w ddiweddaru ar gynnydd | Natalie Dix/ Ysgrifenyddiaeth<br>Natalie Dix/ Ysgrifenyddiaeth |
| **5.** | **Achrediad Cyflog Byw**<br><br>Cafodd y BGC ddiweddariad ar gynnydd gan gynnwys cynnydd sylweddol yn nifer y cyflogwyr achrededig a'i gyfraniad i'r economi leol.<br><br>Anogwyd sefydliadau BGC heb eu hachredu i gysylltu â Cynnal Cymru er mwyn helpu i oresgyn unrhyw rwystrau i achredu. Nododd cynrychiolwyr BIP Caerdydd a'r Fro fod y gefnogaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol wrth gyflawni eu hachrediad. | |

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Eitem Agenda</th><th></th></tr>
<tr><td></td><td>Camau Gweithredu:<ul><li>Huw Jakeway i gysylltu â Sarah Hopkins i drafod achrediad GTADC</li><li>Sarah Hopkins i roi manylion i Jo Salway am gyflogwyr sy'n gallu siarad am fanteision y cyflog byw gwirioneddol yn nigwyddiadau Llywodraeth Cymru.</li><li>Sheila Hendrickson-Brown i roi adborth i Jo Salway gan grwpiau'r trydydd sector ar fanteision y cyflog byw.</li><li>Dolen i wefan Cyflog Byw Cymru i'w rhannu</li></ul></td><td>Huw Jakeway / Sarah Hopkins<br>Sarah Hopkins / Jo Salway<br><br>Sheila Hendrickson-Brown / Jo Salway<br>Ysgrifenyddiaeth</td></tr>
<tr><td>6.</td><td>Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol<br><br>Rhoddodd Siân Sanders y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a datblygiad ei grwpiau blaenoriaeth. Amlygwyd y cynnydd a wnaed ar Adolygiadau Dynladdiad Domestig (ADDau) gyda dau ADDau wedi'u cyhoeddi ar-lein a'r rhai ar y cam cyhoeddi i ddilyn yn fuan.<br><br>Amlygwyd bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn canmol gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.<br><br>Cam Gweithredu:<ul><li>Y cyflwyniad diweddaru ar Ddiogelwch Cymunedol i'w rannu gydag aelodau BGC</li><li>Gwybodaeth am gaffael camerâu y gellir eu hadleoli i'w rannu ag adrannau Cyngor perthnasol</li></ul></td><td>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Siân Sanders</td></tr>
<tr><td>7.</td><td>Unrhyw Fater Arall a Rhagolwg<br><br><u>Amserlenni statudol ac adolygiad Llywodraethiant</u><br><br>Nododd Gareth Newell yr amserlenni ar gyfer cynhyrchu Asesiad Llesiant Lleol a Chynllun Llesiant Lleol diweddaraf BGC Caerdydd.<br><br>CYTUNWYD: Llywodraethiant i gael ei adolygu er mwyn sicrhau bod trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith ar gyfer adfer ac adnewyddu a chyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol wedi'i ddiweddaru<br><br>Cam Gweithredu: Gwahodd aelodau BGC i lywio'r adolygiad ar y trefniadau llywodraethiant<br><br><u>Adroddiad Blynyddol y BGC</u><br><br>Cam Gweithredu: Adroddiad Blynyddol i'w rannu gyda phartneriaid i wneud sylwadau cyn cyfarfod y BGC ym mis Medi.</td><td>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth</td></tr>
</table>

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | <u>**Cyllid Atal a Blynyddoedd Cynnar**</u><br><br>Darparodd Fiona Kinghorn drosolwg byr o'r adroddiad a gynhwyswyd gyda phapurau sy'n nodi defnydd o'r cyllid hwn hyd yma a chynllunio ar gyfer 2021/22.<br><br><u>**Cyfarffod Adfer Gwirfoddoli wedi COVID-19**</u><br><br>**Cam Gweithredu:** Gwahodd aelodau BGC i gyfarfod a drefnwyd gan C3SC<br><br><u>**Unrhyw fusnes arall**</u><br><br>**Cam Gweithredu:** Cofnodion BPRh i'w rhannu ag aelodau BGC<br><br>**Cam Gweithredu:** Ailystyried cynlluniau ar gyfer cyfarfod ar y cyd o BGC Caerdydd, BGC y Fro a BPRh Caerdydd a'r Fro | <br><br><br><br><br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br><br><br>Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| | **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:**<br>• BGC Caerdydd 22 Medi 2021<br>• BGC Caerdydd 30 Tachwedd 2021 | |